Myfyrdod Mis Gorffennaf 2011

"... yn cadw ffurf allanol crefydd ond yn gwadu ei grym hi. Cadw draw oddi wrth y rhain." ***(2 Timotheus 3: 5)***

Ceir yma dri rhybudd:

GALL CREFYDD AR EI GORAU DDIRYWIO'N GYFLYM! A chaniatáu mai un o lythyrau olaf y Testament Newydd yw hwn, syndod meddwl fod perygl dirywiad eisoes yn y golwg. A'r atgof am Bentecost yn fyw, ymddengys tuedd yn barod i syrthio'n ôl i grefydd is. Digwyddodd hyn drosodd a throsodd yn hanes yr Eglwys. Cofiwn, felly mae celfyddyd yw crefydd ar ei gorau, ac amod ei chadw yw gwyliadwriaeth barhaus ac ymgysegriad cyson.

HAWDD YW BODLONI AR GREFYDD SYDD WEDI DIRYWIO! Y mae syrthio'n ôl i grefydd is yn beryglus am ei bod yn bosibl dygymod â hi. Yn wir, y mae'n bosibl dod mor fodlon nes colli'r gallu i ymateb i'r uchaf. Cofiwn, felly fod crefydd uchel sydd wedi dirywio yn fwy peryglus na chrefydd baganaidd. Heb wybod gwell mae honno.

MAWR YW'R GALW AM GREFYDD RYMUS! Grym yw gair mawr y Testament Newydd. Rhyddhad nerthoedd ysbrydol yw ei syniad am Gristnogaeth. Cofiwn, felly nad syniad i'w gofleidio yw Cariad Duw, ond gallu y mae'n rhaid ildio iddo. Ildio i gariad Duw yw grym crefydd. Rhith yw popeth arall!

Gweddi:

Bywha di ein cydwybod, O Dduw, â'th sancteiddrwydd; portha ein meddwl â'th wirionedd; pura ein dychymyg â'th harddwch; agor ein calonnau i'th gariad, a phlyg ein hewyllys i'th bwrpas dwyfol. Amen.

(Seiliedig ar weddi gan William Temple)